**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: WAQ 76888

Siân Gwenllian AM
Sian.Gwenllian@assembly.wales

15 Awst 2018

Annwyl Siân,

Gofynnoch ar 27 Gorffennaf am ymrwymiad gennyf i gyhoeddi'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) a gymeradwywyd eisoes naill ai ar wefan y Llywodraeth neu drwy ddolen at wefannau'r awdurdodau lleol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i osod rhywfaint o gyd-destun a thrwy hynny, ateb eich cwestiwn.

Mae'r *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*, yn gosod dyletswydd clir ar awdurdodau lleol i gyhoeddi eu cynlluniau terfynol ar eu gwefannau (rheoliad 8). Mae pob awdurdod yn ymwybodol o'u dyletswydd statudol ar y mater hwn ac yn cael eu hatgoffa gan fy swyddogion yn gyson. Ers cyhoeddi'r cylch CSGA cyntaf yn 2014, pwysleisiwyd yr angen i awdurdodau lleol berchnogi'r cynlluniau ac i gymryd cyfrifoldeb llwyr dros bob elfen o'r cynllun a'r gwaith a ddeilliwyd ohoni. Mae'r trefniant hwn wedi sicrhau fod gan y cyhoedd drywydd atebolrwydd clir, sydd yn bwysig i unrhyw gynllunio lleol.

Rydych yn ymwybodol fod y broses o gymeradwyo cynlluniau 2017-2020 wedi arwain at oedi yn yr amserlen gymeradwyo arferol. Canlyniad hynny yw rhywfaint o anghysondeb ymysg yr awdurdodau yn y drefn o gyhoeddi cynlluniau. Er enghraifft, mae wedi dod i'm sylw fod achosion lle nad yw'r cynlluniau wedi'u cyhoeddi ar wefannau'r awdurdodau perthnasol neu eu bod wedi'u lleoli mewn man anhygyrch. Mae fy swyddogion wedi cysylltu a phob awdurdod i'w hatgoffa unwaith yn rhagor o'u dyletswyddau statudol.

Nid yw'n fwriad gennyf osod y cynlluniau ar wefan y Llywodraeth. Cynlluniau awdurdodau lleol yw y rhain ac mae'n holl bwysig, fel yr wyf wedi nodi uchod, eu bod yn cymryd perchnogaeth ohonynt. Wedi dweud hynny, cam rhesymol fyddai cyhoeddi dolen at gynlluniau yr holl awdurdodau ac ymrwymaf i wneud hynny pan fydd yr holl gynlluniau wedi eu cymeradwyo. Mae'r trafodaethau gyda'r siroedd sydd yn weddill wedi dirwyn i ben ac mi fyddaf yn gwneud datganiad yn fuan.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Heblaw hynny, byddwch yn ymwybodol fy mod wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Annibynnol, dan gadeiryddiaeth Aled Roberts, sydd wedi bod yn ystyried gwelliannau i'r Rheoliadau CSGA. Mae'r modd y cyhoeddir cynlluniau yn rhan o'r ystyriaethau hynny.

Mae'r oedi yn y broses gymeradwyo yn bell o fod yn ofer. Canlyniad ein ymyrraeth dwys dros y misoedd diwethaf yw awdurdodau sydd bellach yn arddangos uchelgais i dwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd yn gydnaws a'n strategaeth hirdymor, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Rydym ar drothwy cyfnod hynod gyffrous yn y modd y cynllunnir addysg Gymraeg yng Nghymru ac rwy'n ddiolchgar am y diddordeb parhaus yn y gwaith hwn.

Yn Gywir

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning